



100
1922 - 2022

Nadolig Pwy a Wŷr

**Tinsel ar y goeden
Seren yn y nen
A doli fach yn eistedd
Mor ddel ar frig y pren**

Ai hyn yw'r Nadolig, pwy a wŷr?

**Clychau Santa'n tincian
Dros yr eira mân
A lleisiau plant yn uno
I ganu carol lân**

Ai hyn yw'r Nadolig, pwy a wŷr?

**Plant yn dawel, dawel
Yn eu cwsg drwy'r oriau bach
A breuddwyd fwyn yn gofyn
A ddaw Santa gyda'i sach?**

**Daw teganau lawer
A phwy a wŷr o ble
A sŵn eu chwerthin hapus
A glywir dros y lle**

Ai hyn yw'r Nadolig, pwy a wŷr?



100
1922 - 2022

**Clychau eglwys fechan
Gyda'i neges i'r holl fyd
Yn canu i'n hatgoffa
Fod y baban yn ei grud**

**Neswch at y preseb
Plygwch yno'n llwyr
Wrth weld y brenhinoedd a'r engyl**

Nid oes rhaid gofyn, pawb a wŷr